**PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2011**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr D. R. Hughes, W. I. Hughes, Eric Jones, Eric Roberts, P. Rogers, Ieuan Williams, John Penri Williams. |
| **WRTH LAW**: | Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) (JHJ)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Rheolwr Archwilio (JF)<br>Rheolwr Polisi a Strategaeth (CW)<br>Rheolwr Sgriwtini (BS)<br>Swyddog Cyswllt a Chefnogaeth Sgriwtini (CT)<br>Swyddog Pwyllgor (JMA) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Dim. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Comisiynydd Gareth Jones. |

Draft

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyniwyd datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd R. Dylan Jones yng nghyswllt Eitem 5 ar y Rhaglen.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfodydd gynhaliwyd ar 9 a 20 Mai 2011.

**Materion yn codi:**

Mewn ymateb i bryderon godwyd gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog Cyswllt a Chefnogaeth Sgriwtini y bydd y Polisi Cyflogaeth yn cael ei drafod naill ai yng nghyfarfod mis Medi neu fis Hydref o'r Pwyllgor hwn.

**3 DATGANIAD SEFYLLFA AR REOLI RISG**

Cyflwynwyd adroddiad cynnydd gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) ynglŷn â'r uchod i'w ystyried. Roedd atodiadau i'r adroddiad yn cynnwys y Strategaeth Rheoli Risg Drafft, Fformat Cofrestr Risg Ddrafft, Pecyn Hyfforddiant ar gyfer Pwyllgor Archwilio, Esiampl o Risgiau Lefel Uchel o Weithdai 2010 a'r Fid Adeiladu Capasiti yng nghyswllt Rheoli Risg. Cadarnhaodd y Swyddog bod y Bwrdd Comisiynwyr, yr Adain Archwilio a Swyddogion yn awyddus i'r mater hwn fynd yn ei flaen heb oedi ac maent yn gweithio gyda'r yswirwyr i fynd symud ymlaen. Bydd mater yr hyfforddiant yn cael ei ailystyried ac, yn dilyn ymgynghori gyda Swyddogion, bydd argymhellion yn cael eu gwneud i'r Pwyllgor Archwilio ac i'r Bwrdd Comisiynwyr. Ategodd y Rheolwr Archwilio ei bod yn bwysig bod Rheoli Risg yn cael ei sefydlu'n gadarn yn y Cyngor a'i bod yn bwysig cael fframwaith yn ei le. Dywedodd hefyd bod adnoddau'n brin ac y dylid targedu'r risgiau mwyaf mewn ffordd effeithiol a phriodol.
Roedd gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) bryderon i'w mynegi ynglŷn â dyblygu'r gwaith o adrodd yn ôl i Sgriwtini yn ogystal ag i'r Bwrdd Comisiynwyr.

Roedd yr Aelodau'n gytûn bod gweithredu'r Fframwaith Rheoli Risg yn hynod o bwysig ac na ddylid cael unrhyw oedi pellach o ran sefydlu fframwaith.

**PENDERFYNWYD:-**

**(i)** **cefnogi fersiwn 1 y Strategaeth Drafft yn amodol ar iddo gael ei newid fel ei fod yn gwahaniaethu'n hollol glir rhwng bygythiadau mewnol a gwendidau allanol, a'i fod wedyn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Comisiynwyr;**

**(ii)** **diwygio paragraff 2, adran 6.1 o adroddiad y Swyddog Cyswllt a Chefnogaeth Sgriwtini i ddarllen** *"**Bydd** gan Sgriwtini rôl...."*; **yn lle** *"**rhaid** i Sgriwtini gael rôl...."* **i**

**(iii)** **bod y Cofrestri Risg Gwasanaeth yn cael eu sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar sail chwarterol;**

**4 MONITRO PERFFORMIAD CHWARTEROL**

Cyflwynwyd adroddiad i'w ystyried ar fonitro perfformiad y 4ydd Chwarter 2010 (Ionawr - Mawrth 2011). Cafwyd cefndir yr adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) a thynnodd sylw at yr atodiad i'r adroddiad oedd yn nodi perfformiad y Cyngor yn erbyn y Trefniadau Cynlluniedig 2010/11 (yn seiliedig ar statws RAG diwedd y flwyddyn a thynnwyd sylw at y cynnydd sydd wedi'i wneud ac i beth llithriad a gafwyd). Ychwanegodd y bydd adroddiad pellach ar berfformiad 2010/11 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn ym mis Medi ac wedi hynny i'r Cyngor Sir cyn ei gyhoeddi yn hydref 2011. Roedd y Bwrdd Comisiynwyr wedi nodi ei fod angen mwy o fanylion yngl ŷn â nodi risgiau a dywedwyd bod y Swyddog wedi nodi hyn.

Mewn ymateb i bryderon ynglŷn â ffigyrau'r Adran Gyllid, roedd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) yn cydnabod bod y ffigyrau'n adlewyrchu blwyddyn arbennig o ddrwg i'r Adran yn yr ystyr bod nifer o dargedau wedi cael eu rhewi e.e. pwrcasu ac fe fethwyd â chyrraedd targedau ar Brosiectau fel y system TG newydd y cafwyd oedi yn ei chylch o ganlyniad i gydweithredu. Bwriad yr Adran oedd rhesymoli a blaenoriaethu targedau gyda golwg ar sicrhau adnoddau i'r dyfodol. Ychwanegodd y Swyddog y byddai'r holl weithredu'n cael ei adolygu dros y ddau fis nesaf.

Awgrymodd y Rheolwr Sgriwtini mai'r llwybr priodol i'w gymryd fyddai i Aelodau'r Pwyllgor hwn nodi meysydd o bryder a'u cyfeirio i'r Pwyllgor Sgriwtini priodol i'w trafod ymhellach. Cadarnhaodd ei bod yn ymwybodol o'r problemau capasiti o fewn adrannau ac awgrymodd y gallai'r Adran Gyllid lunio Cynllun Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ym mis Medi ac y byddai'r Adain Sgriwtini yn y cyfamser yn casglu gwybodaeth yn seiliedig ar y ffigyrau perfformiad am y flwyddyn ddiwethaf i'w cyflwyno yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn.

Roedd y Comisiynydd Gareth Jones yn croesawu'r ffigyrau ond dywedodd yntau hefyd bod angen mwy o wybodaeth yn yr adroddiad yn arbennig ynglyn â materion lle ceid ffigwr o dros 20%. Pwysleisiodd ei bod yn bwysig nodi a yw'r wybodaeth yn ymwneud â risg ynteu â pherfformiad gwael gan y gallai Adran fod a ffigwr isel e.e. 7% ond fe allai'r Adran honno fod yn ffactor risg uwch nag Adran arall gyda ffigwr o 29%.

Roedd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) yn cydnabod ei bod yn bwysig mesur perfformiad ond roedd yn bwysig hefyd sicrhau gwelliant mewn perfformiad a bydd y materion hyn yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd chwarterol nesaf. Byddai'r gwasanaethau'n cael eu herio er mwyn sicrhau gwelliant.

**PENDERFYNWYD:**

**(i)** **adolygu fformat yr Adroddiadau Perfformiad a darparu gwybodaeth lawnach ar y wybodaeth ystadegol yn yr adroddiadau;**

Draft

(ii) **nodi a yw'r ffigwr yn ymwneud â mater o Risg neu â Than Berfformio;**

(iii) **bod y Pwyllgor hwn yn cyfeirio rhai meysydd arbennig o gonsyrn i'r Pwyllgor Sgriwtini priodol i'w trafod ymhellach ac i nodi unrhyw weithredu wneir gan Swyddogion i gywiro hynny.**

## 5 ADOLYGIAD PARTNERIAETHAU GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd i'w ystyried adroddiad ar Adolygiad Rhesymoli Partneriaethau gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi). Rhoddodd y Swyddog ddiweddariad i'r Aelodau ar yr angen i briflifo trefniadau ac osgoi dyblygu ac adroddodd hefyd ar y cynnydd wnaed hyd yn hyn. Roedd model newydd wedi'i gynnig ar lefel statudol a'i gymeradwyo gan Fwrdd Arweiniad Gogledd Cymru a'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru. Cafwyd cytundeb ar ddimensiwn rhanbarthol (ffocws strategol ac arweiniad) ac ar ddimensiwn isranbarthol. Mae angen ffurfioli cynigion yn awr ar y cyd a chytuno ar fodel addas gyda Gwynedd ynglyn â'r ffordd orau o symud ymlaen gyda'r model isranbarthol yng nghyswllt trefniadau cynllunio, comisiynu a llywodraethu ar y cyd yng nghyswllt y Bwrdd Gwasanaeth Lleol, Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Byddai'r trafodaethau'n parhau dros y ddau fis nesaf gyda golwg ar weithredu'r trefniadau ym mis Ebrill 2012.

Roedd gan y Comisiynydd rai pryderon ynglyn â'r posibilrwydd o golli'r elfen leol ond anogodd yr aelodau i ystyried y symudiad hwn fel ffordd o gadw a gwella gwasanaethau mewn ffordd effeithiol trwy wneud y defnydd gorau o adnoddau a chapasiti.

Roedd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) am sicrhau'r Aelodau y bydd Cyngor Sir Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn paratoi Rhaglen Waith benodol fydd wedi'i chytuno rhwng y ddau Gyngor. Cadarnhaodd y byddai'r Comisiynydd Margaret Foster yn Cadeirio'r cydbwyllgor fyddai'n cael ei gynnal i drafod y ffordd ymlaen.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys ynghyd â'r sylwadau wnaed yn y cyfarfod.**

## 6 CYNLLUN YR IAITH GYMRAEG

Cyflwynwyd yr adroddiad monitro blynyddol ar weithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg am 2010/11 a gymeradwywyd gan y Deilydd Portffolio perthnasol o dan awdurdod dirprwyedig.

Cyfeiriodd y Rheolwr Polisi a Strategaeth at saith targed y canolbwyntir arnynt fel rhan o'r Adroddiad Monitro h.y. Cydymffurfio gyda'r Cynllun, Ansawdd Gwasanaethau Iaith Gymraeg a gwasanaethau rheng flaen, Rheoli a gweinyddu'r Cynllun, Digonolrwydd sgiliau yn yr Iaith Gymraeg, Priflifo, dadansoddiad o berfformiad yn erbyn pob blaenoriaeth/targed a chyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad. Cyfeiriodd y Swyddog hefyd at y Cynllun Ymwybyddiaeth Iaith ac at y Grŵp Tasg Strategol Iaith oedd wedi'u sefydlu gyda'r Comisiynydd Gareth Jones, y Deilydd Portffolio Cysgodol, y Prif Weithredwr Dros Dro a Phenaethiaid Gwasanaeth yn aelodau ac roedd iddo fewnbwn gwerthfawr. Byddai'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ar 15 Gorffennaf pryd y byddai'n trafod gwerthuso risg a monitro. Nodwyd bod mabwysiadu Strategaeth Sgiliau wedi'i nodi ar hyn o bryd fel prif flaenoriaeth a risg. Bydd adroddiadau chwarterol yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Tasg Iaith ynglyn a phenodi staff ac wedi hynny i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fel bydd angen.

Cyfeiriwyd at fesurau yn integreiddio iaith gyda materion cydraddoldebau a hefyd fesurau roddwyd mewn grym i godi ymwybyddiaeth a gwella'r defnydd a wneir o'r Iaith Gymraeg yn llafar ac yn ysgrifenedig.

Lleisiwyd pryderon gan yr Aelodau bod yr Iaith Gymraeg yn cael ei hystyried yn rhywbeth eilradd i'r iaith Saesneg a chafwyd esiamplau o achlysuron lle'r oedd adroddiad wedi'i gyflwyno yn Saesneg yn

Draft

unig. Roedd yr Aelodau yn ymwybodol bod y Gwasanaeth Cyfieithu o dan bwysau mawr o safbwynt capasiti a nododd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) bod hwn wedi'i nodi fel maes risg.
Roedd y Comisiynydd Gareth Jones am longyfarch y Cyfieithwyr ar eu gwaith ardderchog. Roedd yn ei hystyried yn bleser ac yn fraint iddo fod wedi profi'r Gwasanaeth y maent yn ei ddarparu. Ychwanegodd ei gefnogaeth a dweud y byddai'r Comisiynwyr yn fwy na pharod i ystyried anawsterau capasiti o fewn yr Adain Gyfieithu a datrys y broblem. Atgoffodd yr Aelodau bod Deddf yr Iaith Gymraeg yn awr yn dweud bod yn rhaid i adroddiadau gael eu cyflwyno'n ddwyieithog a gyda phenodi Comisiynydd Iaith, fe ddylid gweld gwelliannau. Yn y cyfamser, roedd yn llwyr gefnogi swyddogion yr Awdurdod hwn am eu gwasanaeth gwerthfawr.

**PENDERFYNWYD:-**

**(i) derbyn adroddiad y Swyddog a'r Adroddiad Monitro i Fwrdd yr Iaith Gymraeg am 2010/11;**
**(ii) gofyn i'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfieithu gyflwyno adroddiad ysgrifenedig byr i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar sut y gall y Cyngor helpu'r Adain Gyfieithu a'r gwasanaeth a bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth.**

## 7 RHAGLEN WAITH YMLAEN Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Dywedodd y Pwyllgor Cyswllt a Chefnogaeth Sgriwtini bod y Bwrdd Comisiynwyr wedi penderfynu y dylai adroddiadau a gyflwynir i'r Bwrdd fel rhan o'r Flaenraglen Waith, os yn berthnasol, gynnwys y dyddiad pryd y cafodd y mater ei gyfeirio i sgriwtini am rag-benderfyniad. Byddai'n cwblhau ei adroddiad ynglyn â'r mater hwn ac yn ei anfon ymlaen i Aelodau'r Pwyllgor hwn trwy e-bost ar gyfer eu sylwadau. Atgoffodd yr Aelodau bod eu "Pecynnau Gwyrdd" yn cynnwys ffurflen i Aelodau ei chwblhau a'i chyflwyno naill ai iddo ef neu i'r Rheolwr Sgriwtini gais i eitemau gael eu cynnwys ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor yn seiliedig ar y Flaenraglen Waith y Bwrdd Comisiynwyr.

Ychwanegodd y Comisiynydd Gareth Jones y byddai'r Comisiynwyr yn croesawu'r ffordd hon o weithio ond anogodd y Pwyllgor hefyd i ffurfio Grwpiau Tasg a Gorffen i ystyried rhai materion mewn dyfnder. Anogodd yr Aelodau i gofio bod Rhaglen y Bwrdd Comisiynwyr yn Raglen i bob Aelod a bod eu rôl a'u mewnbwn hwy o bwysigrwydd mawr ac yn berthnasol iawn i'r broses o wneud penderfyniadau.

Draft

**Y CYNGHORYDD SELWYN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**